CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Ebrill 2019 *Rhif 092*

Ddiwedd mis Mawrth fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfeddol yma yn Nyffryn Clwyd. Un bore edrychais allan drwy'r ffenest a gweld fod rhai o'r coed wedi dechrau blaguro, yn wyn a llachar yn erbyn yr awyr llwyd. Am olygfa anhygoel! Yr un fath bob gwanwyn, ond eto yr un mor rhyfeddol bob blwyddyn, fflach o oleuni yn cyhoeddi i'r byd fod y gaeaf ar ben a bod y gwanwyn wedi cyrraedd.

Eleni gadewch i'r hyn wnaeth ddigwydd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yn Jerusalem beri i ni ryfeddu a diolch o'r newydd. Rhyfeddu a diolch am *rhywun* ydyn ni – sef yr Arglwydd Iesu, Mab Duw. Does na neb tebyg iddo wedi troedio'n daear. Yn sicr does yna neb sy wedi dylanwadu ar ein byd ni yn fwy na'r person hwn.

Ar adeg y Pasg rydyn ni'n meddwl yn arbennig am ei farwolaeth ar y groes. Roedd y rhai a'i lladdodd yn credu ei fod yn ddieuog, ond fe'i lladdwyd yr un fath ar groes Rufeinig. O'n safbwynt ni mae'r ddau beth yn anodd i'w ffitio gyda'i gilydd. Pam ddigwyddodd hyn? Mae'r bobl gyntaf i ysgrifennu am stori bywyd Iesu yn barod iawn i esbonio pam. Hwn yw Mab Duw – Duw ei hun yn dod i'r byd i gyflawni'r addewid am achubwr. Ar y groes mae'n gwneud rhywbeth na allai unrhywun arall wneud – mae'n cymryd y gosb oedden ni'n haeddu am y cwbl rydyn ni wedi ei wneud o'i le.

Nid digwyddiad mewn llyfr hanes yn unig yw hyn. Mae'r neges yma'n bersonol i bob un ohonom ni heddiw. Adeg y Pasg gadewch i ni gymryd amser i feddwl am yr hanes eto, a thrysori'r gobaith a'r llawenydd sydd i ni yn Iesu.

Cofiwch am wasanaethau arbennig y Pasg – croeso mawr i bawb o bell ac agos!

DIGWYDDIADUR

CINIO'R FRO
Cynhelir y Cinio nesaf Dydd Gwener, Ebrill 12fed yn Festri'r Capel Mawr am 12.00.

ASTUDIAETH FEIBLAIDD
Festri Capel Trefnant, 3ydd o Ebrill, 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

CLWB IEUENCTID, Ebrill 5ed yn Festri Capel Llandyrnog, 7-8.30 y.h. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

COLEG Y BALA – PENWYTHNOS MIRI MAI (17-19 Mai)
Penwythnos i blant 8-12 oed yn llawn gemau gwirion, gweithgareddau, crefft, canu, ymlacio yn y 'stafell chwaraeon, nofio, gwylio ffilm ac yn fwy na dim i ddysgu mwy am Iesu Grist. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andras.

DIGWYDDIADAU'R PASG YN Y FRO

'TRI DIWRNOD' – Tair noson anffurfiol i ganolbwyntio ar neges y Pasg dros baned. 27ain o Fawrth, 3ydd o Ebrill, a'r 10fed o Ebrill yn Capel Mawr am 7 y.h.

OEDFA ARBENNIG I'R FRO YNG NGHWMNI CÔR Y SYNOD, MIZORAM, 14eg Ebrill, 2.y.p., Capel Mawr.
Dros gan mlynedd yn ôl aeth cenhadon o Gymru i Mizoram yng ngogledd ddwyrain India i rannu'r newyddion da am Iesu Grist. Ar Sul y Blodau byddwn ni'n cael y fraint o groesawu'r côr rhagorol hwn i Ddinbych am oedfa arbennig yn eu cwmni. Dewch yn llu a gwahoddwch deulu a ffrindiau!

GWASANAETH CYMUN NOS IAU CABLYD, 18 EBRILL, 7 y.h., CAPEL GELLIFOR

PREGETH NOS WENER Y GROGLITH, 19 EBRILL, 7 y.h, CAPEL Y DYFFRYN,
gyda'r Parch Dylan Rhys Parry, Bro Creuddyn.

OEDFA'R FRO SUL Y PASG – 21ain EBRILL, 10 y.b. Wedi'r oedfa bydd dewis o dro hamddenol rownd y pentref neu gyfle i gael paned yn dilyn yr oedfa. Dewch a phicnic gyda chi i ni gael bwyta gyda'n gilydd cyn mynd adref!

Diolch am Noson Grempog!

Gawsoch chi Grempog dydd Mawrth y 5ed o Fawrth? Os oeddech chi yng Nghapel y Fron dwi'n gwybod eich bod wedi cael crempog arbennig iawn yng ngwmni'r Guides lleol. Erbyn hyn, mae Noson Crempog Cymorth Cristnogol yn un o uchafbwyntiau'r calendr gweithgareddau pwyllgor Cymorth Cristnogol Dinbych ac yn gyfle i godi £423 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Sgwrs am waith ymgyrchu Cymorth Cristnogol, Ymgyrch y Cam Mawr i daclo Newid Hinsawdd, un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r blaned gawsom gan Anna Jane Evans.

Cawsom flas hefyd ar Wythnos Cymorth Cristnogol 12- 18 o Fai, 2019. Wyddoch chi mai Sierra Leone yw'r lle peryclaf yn y byd i roi genedigaeth? Mae'r benthyciadau a roddwyd i'r wlad i ymateb i argyfwng Ebola yn 2014 wedi ei llethu gyda dyled gan atal ariannu gofal iechyd.

Gawsoch chi grempog dda, sgwrs efo llond lle o Ffrindiau, cyfle i gael nwyddau Masnach Deg a chyfle i glywed am waith Cymorth Cristnogol? Na? Blwyddyn nesa' amdani ta!

Diolch am eich cefnogaeth.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Llun, Ebrill 8fed
Cinio Cynnil 12.00 1.00
Croeso cynnes i bawb

Dydd Sul, Ebrill 14eg
2.00 – Gwasanaeth arbennig yn y Fron.
Dydd Sul, Ebrill 21ain
10.00 - Oedfa'r Fro – Gellifor
Dydd Sul, Ebrill 28ain
10.00 – Mrs Helena Jones, Prestatyn

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf a Delyth Parry a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Wyn. Priod, tad a thaid arbennig. .

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Ebrill 7ed
Ysgol Sul am 10.00
Mr Dilwyn Jones am 2.00.
Dydd Sul, Ebrill 14eg
Ysgol Sul am 10.00
Gwasanaeth arbennig yn y Fron am 2.00.
Dydd Sul, Ebrill 21ain
Sul y Pasg - Oedfa'r Fro am 10.00
Dydd Sul, Ebrill 28ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Andras Iago am 2.00
Nos Lun, Ebrill 8ed
Y Gymdeithas Ddiwylliadol am 7.00 yn Festri'r Fron.
'Twrio rhwng Tudalennau a Chwis' yng ngofal Dafydd Timothy.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul Ebrill 7fed am 9.45 yb
Gweinidog - Parch Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Ffiona/Arwyn
Emyn a Darllen Plant - Ysgubor Efa
Organ - Lona
Blodau - Ffiona

Dydd Sul, Ebrill 14eg am 11 yb
Parch Elfyn Richards
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Gwyneth Evans
Organ - Glenys
Blodau – Liz

Nos Iau, Ebrill 18fed am 7 yh
Gwasanaeth Nos Iau Cablyd yng Nghapel Gellifor.

Nos Wener, Ebrill 19eg am 7yh
Pregeth y Groglith
Parch Dylan Rhys Parry, Bro Creuddyn
Organ - Iona
Blodau - Nia

Dydd Sul, Ebrill 21ain am 10 yb
Oedfa Pasg Y Fro yn Gellifor

Dydd Sul, Ebrill 28ain am 9.45 yb
Parch Anna Jane Evans
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Catrin
Emyn a Darllen Plant - Cadi a Megan
Organ - Lona
Blodau - Lona

GELLIFOR

Dydd Sul, Ebrill 7fed
11.00 - Gweinidog
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Elsbeth
Offeryn – Alaw
Blodau - Ruth

Dydd Sul, Ebrill 14eg
9.45 – Parch Elfyn Richards
Llywydd – Gareth
Offeryn - Richard
Blodau – Ruth

Nos Iau, Ebrill 18fed - 7.00yh - Gellifor
Gwasanaeth Nos Iau Cablyd, Gwasanaeth Gwahanol.

Nos Wener Groglith, Ebrill 19 – Capel Dyffyn
7.00 - Parch Dylan Rhys Parry

Dydd Sul, Ebrill 21ain
10.00 - Oedfa'r Pasg - Gellifor

Dydd Sul, Ebrill 28ain
11.00 – Parch Anna Jane Evans
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Tan Ffordd
Offeryn – Margaret
Blodau – Teleri

Y FRON

Llywydd y mis – Mr Richard Snelson

Dydd Sul, Ebrill 7fed
10.00 Fron – Mr Dafydd Timothy, Rhyl
5.30 – Capel Mawr – Miss Llinos Mary Jones
Dydd Sul, Ebrill 14eg
10.00 Capel Mawr – Parch Dewi Morris
5.30 – Fron – Parch Dewi Morris
Dydd Sul, Ebrill 21ain (Sul y Pasg)
10.00 – Oedfa'r Fro – Gellifor
Dydd Sul, Ebrill 28ain
11.00 – Fron - Bugail
5.30 – Capel Mawr – Bugail
Organyddion – Iona Edwards ac Eiri Jones
Casglyddion – Aelwyn Lloyd a John Geraint Jones
Paratoi Bwrdd y Cymun – Jois Snelson a Gwenda Owens
Croesawu
7fed – John Howatson
14eg - Dilys Davies
21ain –
28ain – Erfyl Williams
Rhoddwyr y Blodau - yn gyfrifol Jois Snelson
7fed - Jois Snelson
14eg – Er cof am Dei Groeswen
21ain – Oedfa'r Fro yn Gellifor
28ain –

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws
Nos Lun, Ebrill 8fed.'Twrio rhwng Tudalennau a Chwis' yng ngofal Dafydd Timothy yn festri Capel y Fron am 7yh.
Croeso cynnes i bawb.

A wnaiff y Chwiorydd sydd â blychau cenhadol, neu yn hoffi cyfranu at yr achos, ofalu bod Carys Jones yn ei dderbyn erbyn dydd Sul, Ebrill 7fed – Diolch.

Anfonwn ein cofion at Anne Roberts, Ceri Llay Jones, Mr Tom Prytherch y tri werdi derbyn llawdriniaeth ac hefyd fu rhaid i'r Parch Eifion Jones dreilio noson yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymuniadau gorau a gwellhad buan. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda Gwenda Owens sydd wedi cyfarfod a phrofedigaeth unwaith eto.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW
**Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.

CASGLIAD ARBENNIG
Bydd casgliad y Sul nesaf (31 Mawrth) yn mynd tuag at Apêl Seicion Idai DEC (Disasters Emergency Committee).
Gadawodd y seiclon drychinebau dybryd ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe, gan adael 400,000 o bobl yn ddigartref.
Mae Cymorth Cristnogol yn gweithredu fel rhan o DEC i godi arian ar frys.
Gadewch i ni wneud ein rhan i gynorthwyo ein brodyr a'n chwiorydd - gadewch i aelodau eraill wybod os dewch ar eu traws yn ystod yr wythnos.

Dydd Sul, Ebrill 7
10am – Y Fron – Mr Dafydd Timothy, Rhuddlan
5.30pm – Y Capel Mawr - Miss Llinos Mary Jones, Gwyddelwern
Dydd Llun, Ebrill 8
Cyfarfod Gweddi – 1.30pm
Dydd Sul, Ebrill 14
10am - Y Capel Mawr - Y Parch. Dewi Morris, Porthmadog
5.30pm - Y Parch. Dewi Morris, Porthmadog
Dydd Mawrth, Ebrill 16
1.30pm – Yr Aelwyd - Mr Eryl Roberts yn sôn am y Sipsiwn Cymreig
Dydd Sul, Ebrill 21 - Sul Y Pasg
10am – Dathlu'r Pasg – Oedfa i'r Fro gyfan yng Ngellifor.
Dydd Sul, Ebrill 28
**11am – Y Fron – Y Bugail
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Bugail

Llywydd Y Mis: – Mr Ifor John Jones
Casglyddion/ Wrth y Drws:- Mrs Mair Jones

Organydd/ Cyfeilydd:-
Ebrill 7 - Mrs Catrin Warren
Ebrill 14 - Mrs Catrin Warren
Ebrill 28 - Mrs Dorothy Rogers

Blodau
Ebrill 14 - Robat, Medwen a Bedwyr Griffiths

Llety'r Pregethwyr - Y Capel Mawr

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Ifor John Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli nith. Meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

Aelwyd Capel Mawr
Dechreuwyd Aelwyd Mis Chwefror gan Mair Jones yn darllen cerdd R. Williams Parry "Clychau'r Gog".
Y gŵr gwadd oedd Dr. Goronwy Wynne, a chroesawyd ef gan Helena Williams. Mae'n dod o sir Fflint ac wedi ennill Llyfr y Flwyddyn gyda'i lyfr "Blodau Cymru. Byd y Planhigion" yn y flwyddyn 2018. Cawsom glasur o ddarlith arbennig o ddiddorol. Mae'r gyfrol yn un swmpus ac yn cynnwys llawer mwy na disgrifad o'r planhigion. Mae'n trafod pethau fel cynefin, ac mae'n addysgiadol iawn. Mae pennod am bob sir ac yn amlwg roedd llawer o waith ymchwil.
Diolchwyd iddo gan Ronwy Rogers ac i bawb fu'n paratoi te Gŵyl Ddewi.

Ym mis Mawrth dechreuwyd y Cyfarfod gan Rhiannon Wynne, darllenodd dair cerdd gan R.H. Jones oedd yn byw ger Pentrellyncymer dros gan mlynedd yn ol. Y dair yn addas, gan mai am fro Hiraethog oedd ein siaradwr gwadd yn siarad. Croesawyd Mr Alun Williams Trefnant yn ol atom gan Helena Williams. Mae "naturiaethwr ymroddedig" yn ddisgrifiad da iawn ohono. Y tro ma roedd yn son am natur ym Mro Hiraethog, a llawer o'n aelodau a chysylltiad a'r Fro. Cawsom ein synnu gan yr amrywiaeth eang o anifeiliaid, pryfetach ac adar yn y rhan yma o'r wlad, ardal llwm ond yn gynefin i gymaint o greaduriaid gwyllt. Roedd y lluniau ar y sgrin yn arbennig o dda, roedd wedi llwyddo i ddal natur yr holl adar ac anifeiliaid.
Diolchwyd iddo gan Mair, a diolch i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.
Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus i Mrs Phyllis Lloyd yn naw deg oed ar yr 28ain o Fawrth.
Mae rhai o'n aelodau yn wael ar hyn o bryd a dymunwn y gorau iddynt.

Ebrill 8fed..... Cyfarfod Gweddi am 1.30
Ebrill 16.....Yr Aelwyd am 1.30 Bydd Mr Eryl Roberts Rhyl yn rhoi sgwrs am "Y Sipsiwn Cymreig"

Popeth yn Barod... Dyna oedd ym meddwl Nerys Ann ar 1af o Fawrth

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Ebrill 7fed
9.45- Pentre - Miss Llinos Mary Jones
Dydd Sul, Ebrill 14eg
9.45 – Pentre - Gweinidog
Nos Iau, Ebrill 18fed 7.00yh - Gellifor
Gwasanaeth Nos Iau Cablyd. Gwasanaeth Gwahanol,
Gwasanaeth torfol, Gwasanaeth Hwyliog, Croeso i bawb o bob oed!
Dydd Sul, Ebrill 21ain
10.00 - Gellifor - Sul y Pasg, Oedfa'r Fro.
Dydd Sul, Ebrill 28ain
9.45 – Prion - Parch Bernard Thomas

CYMDEITHAS - Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, aeth criw ohonom i weld dramau Bethania, noson wych a hwyliog iawn - werth eu gweld.

Cawsom noson gartrefol iawn wrth ddathlu Gŵyl Dewi, gyda swper o salad ham a phwdinau blasus a phaned a chacen gri i ddilyn. Bu i bawb fwynhau'r adloniant ysgafn yng nghwmni Dylan o Dowyn. Diolch yn fawr i'r merched am y coginio a'r cymorth.

GWASANAETH DYDD GWEDDI BYD EANG - Diolch yn fawr i bawb gymerodd rhan yn y gwasanaeth yma â oedd wedi cael ei drefnu eleni gan ferched Slofenia. Cawsom gyfarfod bendithiol yn dysgu am fywyd a diwylliant merched y wlad. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y plant i'r gwasanaeth, roedd pawb wedi mwynhau yr eitemau cerddorol roeddech wedi ei recordio a'i gyflwyno ar y sgrîn trwy fodd power point. Roedd cael gwrando ar gerddoriaeth werin Slofenia oddi-ar y cryno ddisg wedi ychwanegu at y gwasanaeth.

CYNGERDD
Nos Sadwrn, 13eg Ebrill 2019, Cyngerdd yng Nghapel y Pentre yng nghwmni Côr Cytgan Clwyd, Dafydd a Lisa, a Dafydd Pen Pen Bryn Llan, elw tuag at Pwyllgor Urdd a phwyllgor Ffynnon Dyfnog.

CYDYMDEIMLO - Trist iawn gan y Pentre oll glywed am farwolaeth Lilian Roberts, roedd hi bob tro yn edrych ymlaen i ymuno â ni yn y gwasanaethau pan oedd ei hiechyd yn caniatau. Rydym yn cydymdeimlo gyda'i theulu a'i chymdogion ym Modafon.

Hefyd cydymdeimlwn â Eifion Rowlands Llwyn Bach cynt, sydd wedi colli ei chwaer, a chwaer yng nghyfraith i Annette Tŷ Coch, sef Kitty yn Ninbych, roedd Kitty yn fodryb i Ian a Llinos Tŷ Coch a'r teulu, ac yn gyfnither cynta i Gwenan, ein cofion atoch i gyd.

RHAGHYSBYSIAD

Bore goffi tuag at Cymorth Cristnogol ac achosion lleol, Sadwrn 11eg Mai, 10.30 – 12.00 yn y Festri.

Glenys, Enid, Carole, Gwenfyl, Llinos a Mari yn gwneud Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang.



Y GLYN

Dydd Sul Ebrill 7ed, 2 y. p. gydag Andras.

TREFNANT

Llywydd y Mis : EIFION WILLIAMS

Dydd Sul, Ebrill 7fed
10.00 - Parch. Pryderi Llwyd Jones 11.15 YSO
3.00 - Parch. Pryderi Llwyd Jones
Blodau - Eirlys Roberts

Dydd Sul, Ebrill 14eg
10.00 - Parchedig Bernard Thomas 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Betty Griffiths

Dydd Sul, Ebrill 21ain
10.00 - Oedfa'r Pasg
Blodau - Gwyneth Evans

Dydd Sul, Ebrill 28ain
9.45 - Gweinidog - Cymun Sanctaidd gyda phaned i ddilyn
3.30 - Gweinidog
Blodau- Cath Lewis

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd prynhawniau Llun yn parhau ar bnawn Llun yn y festri. Mae yma gyfle i addoli, creu, cymdeithasu yn ogystal a mwynhau cwmni a phaned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Wedi cael dwy noson lwyddiannus , Cinio Gŵyl Ddewi yng nghwmni Sam Pritchard a sgwrs a lluniau gan Alun Williams ar "Fyd Natur yn Ardal Hiraethog" ym mis Mawrth, edrychwn ymlaen am daith o amgylch Llanelwy y mis hwn ar Nos Wener, Ebrill 12fed. Cawn ein harwain gan John Roberts ar daith i ddarganfod "Y Platiau Glas" . Llywyddir y noson gan Eifion Williams ac estynnir croeso cynnes iawn i bawb.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn cydymdeimlad yr Eglwys at Gwyn Owens a'i wraig Rhiannon ar golli ei chwaer, Gwenda Hughes o Ddinbych, yn ystod y mis diwethaf hwn.

DYMUNIADAU GORAU i'n haelodau i gyd gyda chofion arbennig at y rhai sy'n methu'r oedfaon a chymdeithas y Suliau ar hyn o bryd. Mae'n dda clywed fod Glenys Blainey adre wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd a bod Dorothy Jones, wedi cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd, wedi cyrraedd Ysbyty Rhuthun ar hyn o bryd. Cofion annwyl atoch eich dwy - gobeithio bydd y Gwanwyn a gweddiau'r Eglwys yn gymorth i chi ac i bawb ohonom.

NEGES NESTA

Bu'n fis prysur rhwng Dathliadau Gŵyl Dewi, Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd, Noson Grempog at Gymorth Cristnogol, Cinio 'r Fro a Chinio Cynnil Capel y Waun Bodffari, pythefnos Masnach Deg a mynd i Bwyllgorau Plant a Ieuenctid ac Eglwys a Chymdeithas. Dengys y rhain i gyd pa mor bwysig yw inni fel Eglwysi roi esiampl dda yn ein cymunedau a chefnogi'r tlodion drwy brynu nwyddau sydd wedi eu cynhyrchu dan amodau sy'n arbed yr amgylchedd a rhoi tâl teg i'r gwneuthurwyr. A nawr bod gymaint o deuluoedd ym Mozambique, Malawi a Zimbabwe yn dioddef effaith y seiclon a'r llifogydd ,gwelwn nad twyll ydy Newid Hinsawdd. Beth am gynnal gweithgaredd i gefnogi Apêl DEC a Chymorth Ctistnogol yn eich heglwys chi?.

Cefais ychydig o newid pan es i am benwythnos i Lundain i bregethu a chês weld Seren o'r Fro yn un o brif rannau y Sioe Gerdd 9 to 5 – Amber Davies, a does dim amheuaeth bod ganddi dalent.

Cofiwch bydd Cymun Nos Iau Cablyd Cymdeithas Chwiorydd y Fro yn cael ei gynnal ar nos Iau 18fed Ebrill, a bydd Taith o dystiolaeth yn cychwyn o Eglwys Sant Thomas am o'r gloch ddydd Gwener y Groglith gan orffen ger muriau'r dre. Yna Fore Sul y Pasg 21ain am 7.00 y bore cynhelir Gwasanaeth ger y Castell.

Pasg Bendithiol ichi i gyd!

Newyddion rhifyn Mai o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Ebrill 19
e-bost : **meinididdos13@gmail.com**
neu: 01745890417